DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 155 **MEHEFIN 1989**

EMYR - DERYN O'R GOG!

Pan frwydrodd Emyr Currie-Jones gyntaf am sedd ar Gyngor Dinas Caerdydd roedd yr Arlywydd Kennedy yn y Ty Gwyn yn Washington a'r Beatles yn hel eu harmoniau yn Lerpwl heb eto dorri disc! 1963 oedd hi ac ar ôl llwyddiant Emyr yn etholiadau y flwyddyn honno bu'n aelod o Gyngor y Dref ac wedyn o Gyngor Sir De Morgannwg tan fis Mai eleni - gyda dim ond dau fwlch bychan yng nghyfnod ei wasanaeth.

Er mai ardaloedd Cathays a Thre-lai oedd ei diriogaeth fe'i fabwysiadwyd fel "ein cynghorydd ni" gan Gymry-Cymraeg ym mhob cwr o'r ddinas ac fe ddaeth llawer ohonyn nhw, ei 'etholwyr estynedig', i'w adnabod yn bersonol yn ystod ei dymor hir fel Cadeirydd Pwyllgor Addysg y Sir. Yn rhinwedd y swydd honno bu'n ymwelydd cyson â'r Ysgolion Cymraeg - yn wir, prin bod 'na ddrama Nadolig na chyngerdd mawreddog wedi ei lwyfannu heb i Emyr a'i wraig, Mary, fod yn bresennol ac yn mwynhau pob munud o'r perfformiadau (sy'n dipyn o deyrnged iddyn nhw a chofio am ambell i riant â'i lygaid ar ddrws dihangfa ymhell cyn yr egwyl!)

Heddiw ac yntau wedi penderfynu rhoi ffidil y cynghorydd lleol yn y tô dywed mai gweld datblygiad addysg Gymraeg y ddinas sy wedi roi fwya' o foddhad iddo'n ystod y blynyddoedd diwetha'. Ar ôl trafferthion y gorffennol ' yr ymdrech hir i ddod o hyd i gartre' addas i Bryntaf a'r frwydr (ffyrnig ar brydiau) i sefydlu Ysgol Gyfun - mae llwyddiant Glantaf a thwf yr ysgolion cynradd (5 ohonyn nhw ar hyn o bryd a chweched ar y gweill) yn rhoi bleser arbennig iddo. Ond mae ganddo rybudd i Gymry Cymraeg -
"Mae 'na beryg i ni lapio'n hunain mewn cocŵn cyffyrddus yng Nghaerdydd - gweld yr iaith yn ffynnu yma ac anghofio ei bod hi'n marw o'n cwmpas ni."

Yn ei farn ef mae sicrhau lle'r Gymraeg yn ysgolion Cymru yn allweddol i ddyfodol yr iaith ac fel cyn-gadeirydd Panel Iaith a Diwylliant y Cyd-Bwyllgor Addysg ac aelod o Bwyllgor Datblygu'r Iaith mae'n gwybod o brofiad am broblemau cyrff ymgynghorol ac yn crefu ar y Swyddfa Gymreig

i ddarparu cyllid sylweddol ar gyfer addysg Gymraeg - a hynny ar frys.

Ganed Emyr yn nhre'r 'cofis' ac yno cafodd ei addysg gynnar cyn mynd i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth i astudio'r gyfraith. Daeth y rhyfel ar ei draws cyn iddo allu cychwyn ar yrfa proffesiynol ac ymunodd â'r mudiad 'Save The Children' i weithio dan ei adain yn y Dwyrain Canol a'r Eidal (gwlad sy hyd heddiw yn agos iawn at ei galon) Daeth i Gaerdydd am y tro cyntaf fel swyddog yn y Gwasanaeth Erlyn ond yn 1956 ymunodd â chwmni o gyfreithwyr mewn practis yng nghanol y dre.

Er ei fod yn awr yn gwneud ei orau i gyfyngu ei oriau gwaith mae'n dal i fod yn brysur wrth ei ddesg yn ei swyddfa yn y Castle Arcade ac yno, un pnawn, cytunodd i drafod ei brofiadau fel Cynghorydd lleol ar gyfer y Dinesydd.

Yn ateb i'r cwestiwn
"Be sy'n ysgogi dyn (yn ddi-dal) i sefyll etholiadau; i fynychu cyfarfodydd di-rif ac i bwyllgora'n dragywydd?" dywedodd yn bŵmp ac yn blaen (ac yn annisgwyl) "Grym!" gan frysio i egluro mai'r grym sy'n deillio o'r gallu i weithredu yn hytrach nag o uchelgais personol oedd hwnnw. Fel aelod o'r Blaid Lafur ers dyddiau ysgol yng Nghaernarfon (roedd llawer o'i athrawon yn sosialwyr). Cafodd gyfle i brofi grym gwleidyddiol a'i ddefnyddio i wneud yr hyn sy'n bosibl gan gynnwys hybu achosion Cymraeg yng Nghaerdydd a De Morgannwg. Dywed ei hun ei fod yn genedlaetholwr diwylliannol heb fod yn Bleidiwr gwleidyddiol ac yn cyfaddef bod y safbwynt hwnnw wedi achosi ambell i ddadl rhyngddo fo a'r rhai sy'n methu deall na derbyn ei ddaliadau politicaidd.

Mae'n hen gyfarwydd a dadlau yn gyhoeddus ac hefyd bod yn destun penawdau bras yn y papurau newydd; bu'n rhaid iddo wynebu beirniadaeth yn achos Ysgol Howardian ac (fel Cadeirydd y Rheolwyr) yn ystod helyntion y Coleg Cerdd a Drama. Ei arfogaeth mewn sefyllfaoedd tebyd yw ei gred yn nilysrwydd yr achos dan sylw "Cyn gweithredu nae'n rhaid gwneud gwaith ymchwil manwl, dod i benderfyniad ac yna glynnu at y penderfyniad hwnnw i'r eitha!"

Mae'n cydnabod y gall ymosodiadau personol frifo ond yn cyfri ei hun yn ffodus yn ei allu i beidio a gor-gynhyrfu a, bwysica 'oll, i beidio ag edrych yn ei ôl dros ei ysgwydd.

Coronwyd ei yrfa mewn llywodraeth leol gyda'i benodiad yn Gadeirydd cynta'r Sir newydd, De Morgannwg yn 1973 - 74.

Doedd Emyr ar y pryd, ymysg eraill, ddim yn sicr o ddyfodol y Sir fel uned gweinyddol ond erbyn hyn mae'n gallu ymhyfrydu yn ei henw da fel sir anturus, effeithiol sy wedi llwyddo tu hwnt i bob gobaith yn ei hymdrechion i ddenu diwydiant a gwaith i'w thiriogaeth,

Mae'n anodd meddwl am Emyr CurrieJones fel cyn-gynghorydd ond mae'n anodd credu hefyd na fydd cyrff o bob math yn elwa ar ei brofiad a'i benodi'n 'cynghorydd' er lles pawb o bob plaid. Yn y cyfamser dymunwn hir oes a hamdden a hapusrwydd iddo fo ac i Mary sy wedi bod wrth ei ochr ar hyd y daith.

O N Ychydig cyn mynd i'r wasg clywsom bod Emyr wedi pwyso ar Gyngor De Morgannwg i roi enw Cymraeg ar ei Choleg Trydyddol cyntaf. Derbyniwyd ei gais; Coleg Glan Hafren fydd enw'r sefydliad newydd. N.H.W.

GAIR O'R POST

Annwyl Shân Emlyn,

Cymerwyd y dyfyniad yma o 'CARDIFF 1889 - 1974, the story of the County Borough'. Mae'n dangos y derbynnid bod gan Gaerdydd yr holl briodoleddau angenrheidiol i gyflawni'r rôl o Brifddinas y dywysogaeth, ond methodd Caerdydd â chyflawni yr hyn a wnaed gan rai trefi "llai", sef sefydlu Canolfannau Technegol sy'n darparu ffocws a all hyrwyddo a bywiogi datblygiad diwydiannau newydd yng Nghymru i gymryd lle'r sail ddiwydianno draddodiadol sy'n edwino. Mae'r broffwydoliaeth a wnaed yn yr 1960'au y byddai Cymru'n tyfu'n "llinell gydosod" i dechnoleg Japaneaidd yn anffodus yn dod yn realaeth buan heddiw.

Tybed a allwch gefnogi cael yr adnoddau y cyfeirir ato yn y Western Mail yn adeilad lle oedd Llyfrgell Caerdydd.

Mae Pwpedau ar y blaen ond Sefydliad estronol fydd hwn. Yr awgrym arall sydd o bwys i ni, ac am fy mod ynglyn a'r ymgyrch hon mae'n anodd i mi ymwneud a dim arall.

Ni allaf ddeall paham mae yn rhaid i bobl ieuanc ddioddef a brwydro am Ddeddf Iaith. Onid dyletswydd Caerdydd a De Morgannwg ydyw gwneud y gwaith a phwyso ar y Swyddfa Gymreig?

Yn gywir iawn,

AMBROSE WILLIAMS.

Annwyl Olygydd

Seremoni Cymru a'r Byd a DERBYNIAD Rhyngwladol

Ysgrifennaf atoch ar ran Cyngor CYMRU A'R BYD i ofyn yn garedig am ychydig o le yn rhifyn nesaf eich Papur Bro, os gwelwch yn dda, i dynnu sylw eich darllenwyr at rai newidiadau pwysig iawn yn hanes y Sefydliad.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffuniau eleni bydd Seremoni "Cymru a'r Byd" yn cael ei chynnal yn ystod bore Sadwrn cyntaf yr Wŷl sef Awst 5, 1989. Bydd yr un trefniant yn bodoli yn Nyffryn Rhymni 1990 ac hefyd yn yr Eisteddfodau dilynol.

Er mwyn estyn croeso cynnes i'r Cymry tramor yn ôl i Gymru ac hefyd i Fro'r Eisteddfod, bydd CYMRU A'R BYD yn cynnal DERBYNIAD rhyngwladol yng Ngwesty Plas Maenan, Llanrwst nos Wener, Awst 4, 1989 am 7.00 o'r gloch. Trefnir bwffe yn ogystal ag adloniant amrywiol. Bydd y gwaith o gofrestru'r Cymry tramor ar gyfer eu hymddangosiad ar lwyfan y Brifwyl yn cymryd lle yn ystod y DERBYNIAD hwn. Mae trefniadau eraill ar gyfer yr hwyr ddyfnodiaid a'r rhai hynny fydd yn methu dod i'r DERBYNIAD.

Pwrpas y llythyr hwn yw tynnu sylw eich darllenwyr at y newidiadau uchod ac hefyd i wneud apel garedig iawn ar i bob un o'ch darllenwyr sydd â PHERTHYNAS(AU)/CYFEILLION dramor sy'n debygol o fod a diddordeb yn y newidiadau hyn i drosglwyddo'r neges iddynt ar unwaith, os gwelant yn dda.

Os hoffai unrhyw un dderbyn rhagor o fanylion am y treniadau uchod a/neu fanylion am raglen waith CYMRU A'R BYD yna gofynnaf yn garedig iddynt gysylltu a mi yn y cyfeiriad uchod.

Diolch yn fawr iawn ymlaen llaw am eich cymorth a'ch cydweithrediad caredig.

OSIAN WYN JONES
Ysgrifennydd Mygedol

Annwyl Olygydd

Efallai bod rhai o'ch darllenwyr yn gyfarwydd a'r gyfres radio Tan Gamp, sef cwis chwaraeon dan ofal Arthur Emyr. Bydd cyfres arall yn cael ei recordio eleni ac felly bydd angen cystadleuwyr newydd.

Os oes rhai o'ch darllenwyr yn ymddiddori yn y grefft o gofio pob cic, pob cais, pob dim a ddigwyddodd yn myd chwaraeon ers cyn co, byddwn yn falch o'u hystyried fel cystadleuwyr.

Bydd angen tri ymhob tîm, gyda llaw, a'r rhif ffôn i unrhyw driawd sydd a diddordeb yw Abertawe (0792) 468807/ 456456. Neu gyrrwch lythyr i Tan Gamp, Radio Cymru, BBC, 32 Heol Alecsandra, Abertawe, SA1 5DT.

Diolch yn fawr i chi

Yr eiddoch yn gywir

BETHAN EVANS
Cynhyrchydd Tan Gamp

CLWB IFOR BACH

HEOL WOMANBY, CAERDYDD, CF1 2BR.
Ffôn: (0222) 232199

Beth am ymaelodi gyda'r Clwb eleni?

AELODAETH

CATEGORI 1: *Aelodaeth Gyffredin*
— I'r rhai sy Mewn Gwaith a Byw yn Ne Morgannwg, neu i unrhyw un sy'n dewis bod yn aelod llawn.

CATEGORI 2: *Aelodaeth Gyffredin*
— I'r rhai canlynol sy'n byw yn Ne Morgannwg: Pensiynwyr, Gŵr/Gwraig aelod, Y Di-waith.

Aelodaeth Gysylltiedig
— I'r rhai sy'n byw y tu allan i Dde Morgannwg, a Myfyrwyr yn gyffredinol.

Mae manteision o ymaelodi efo'r Clwb yn golygu:
- Mynediad am ddim i'r Clwb adeg gemau Rygbi rhyngwladol
- Prisiau mynediad is ar gyfer adloniant ar adegau eraill
- Cylchlythyrau am weithgareddau ac adloniant y Clwb

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais am aelodaeth rhowch eich enw a chyfeiriad isod, a'i hanfon at:

Y Rheolwr, Clwb Ifor Bach, 11, Heol Womanby, Caerdydd CF1 2BR. Ffôn (0222) 232199

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

.....**Cód Post**.....

Oriau agor

Nos Lun/Maw	**7.p.m. - 11.p.m.**
Nos Fercher	**7.p.m. - 12.30.a.m.**
Nos Iau	**7.p.m. - 11.p.m.**
Nos Wener	**7.p.m. - 2.a.m.**
Dydd Sadwrn	**12.30.p.m. - 6.30.p.m.**
Nos Sadwrn	**8.p.m. - 2.a.m.**

****Heblaw achlysuron arbennig**
Mai 31 Gêm bel Droed Cymru v Gorllewin
Yr Almaen agor o 12.30.p.m. ymlaen.

NOSWEITHIAU CODI ARIAN

Os ydych yn aelod o fudiad Cymraeg yng nghyffuniau Caerdydd beth am ddefnyddio'r Clwb ar gyfer noson codi arian ac ati. Ceir telerau ffafriol iawn ar gyfer ystafell yng nghanol y ddinas. Am fanylion cysyllter â'r Rheolwr.

DOSBATHIADAU DYSGU CYMRAEG

Gobeithir ehangu'r nifer o gyrsiau ar gyfer dysgwyr o bob safon mis Medi nesaf. I wireddu hyn mae'n angenrheidiol cael nifer o diwtoriaid ychwanegol i gymeryd a'r gwaith. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch a'r Rheolwr. Ni fydd yna dâl am eich gwasanaeth.

ADLONIANT

Nos Sadwrn Mehefin 3ydd
MWG 10.00.p.m.

Nos Fawrth Mehefin 6ed
CWIS 7.30.p.m.

Nos Wener Mehefin 9fed
HERGEST 8.00.p.m.

Nos Fawrth Mehefin 13eg
CYSTADLEUAETH DARTIAU 7.30.p.m.

Nos Sadwrn Mehefin 17eg
SOBIN A'R SMAELIAID 10.00.p.m.

Nos Fawrth Mehefin 20fed
CWIS 7.30.p.m.

Nos Sadwrn Mehefin 24ain
CWRW BACH 9.30.p.m.

Nos Fawrth Mehefin 27ain
PENCAMPWRIAETH 'TIP IT' 7.30.p.m.

Noson Hergest
Tocynnau ar gael o flaen llaw
Nifer cyfyngedig ar gael!

Am fanylion diweddaraf am adloniant y Clwb, darllenwch blwch hysbysebu arbennig y Clwb ar dudalen Hysbys y Western Mail pob dydd Iau.

Menna'n manylu

Pan ddaeth ein ffrindie i'n nôl ni i Toronto yn eu tryc, roedd yn braf eu gweld unwaith eto, ac roedd Nia (ffrind arall oedd yno wythnos o'n blaenau) yn falch o'n gweld ninne! Cawsom dipyn o drafferth i groesi'r ffin o Ganada i America - dywedwyd wrthym yn y wlad hon cyn mynd nad oedd angen 'visa', and wedi cyrraedd "we sure did"! Profiad reit anymunol a dychrynllyd oedd cael ein holi gan ddynion mawr, duon a gwn yn gorwedd yn llechwraidd wrth eu hochr! Wedi croes-holi, gwilltio a thalu pymtheg doler, dyma gael ein rhyddhau a ffwrdd â ni i dŷ Eirian ac Eben i Buffalo.

Dinas fawr, ddiwydiannol ydi Buffalo a fawr ddim atyniadau enwog i'w gweld. Serch hynny, roedd Eirian wedi trefnu i ni weld digon o bethe diddorol eraill. Buom yn Oriel Albright-Knox i weld lluniau Arlunio Pop Andy Warhol yn cynnwys "100 Cans" a "Numbers in Color" gan Jasper Johns. Yma hefyd roedd y 'Mirrored Room' - campwaith o stafell fechan yn cynnwys cadeirie a bwrdd mewn sgwariau gwydr mewn gwahanol ddimensiynau.

Buom mewn marchnad hen bethe yn Salamanca - taith tua dwy awr i'r wlad, a chyfle i weld y ffyrdd sythion, y tai pren, y coed hirion a'r bobol gyffredin ar ein taith. Digon llwm oedd popeth ym mis Mawrth a ninne'n cael yr argraff anghywir am y wlad mae'n siŵr. Doedd 'na ddim sudd y goeden masarnen fach yn disgyn i'r tunie oedd ar ochor eu bonion i wneud Maple Syrup, a'r peth darodd fi fwyaf oedd nad oedd dim wal na gwrych na ffens yn gwahanu'r gerddi na hyd yn oed derfyn rhwng y mynwentydd a'r caeau.
Aethom i Amgueddfa Genedlaethol Seneca-Iroquois sef storfa hanes a chyn-hanes y ddau lwyth o Indiaid (cochion nid o India) oedd yn bodoli yn America cyn i'r dyn gwyn ddarganfod y wlad. Er eu bod nhw'n genedl leiafrifol, maen&wedi cadw'u diwylliant, iaith a'u hawlie ac yn cael addysg, gwasanaeth iechyd a lwfans gan y wladwriaeth. Mae cymdeithas glós o bobl yma'n ymladd dros eu hawliau cynhenid. Gallem ni fel Cymry uniaethu'n sefyllfa ni efo'u gorthrwm gwleidyddol nhw.
Buom hefyd mewn marchnad Bwyleg a hyfryd oedd gweld cannoedd o wlad Pwyl yn gwerthu a phrynnu nwydde yn eu hiaith frodorol. Mae America'n llawn o wahanol genhedloedd fel y gŵyr pawb a neb yn sicr o'u gwreiddie.

Cawsom amal i awr ddifyr efo'r Gwyddelod a gwaed y Celtiaid yn cymysgu'n dda oddi cartre. Roedd y croeso'n gynnes iawn yn Ray Flynn's, a'r cwrw allan o'r 'Pitcher' (jwg mawr) yn mynd i lawr y corn glag yn hyfryd!

Mae Eben yn fyfyriwr yn un o Brifysgolion Cenedlaethol Efrog Newydd yn Buffalo, a buom yno mewn gwersi stepio'n dysgu dawnsfeydd o Roeg, Alban a Thwrci.

Roedd Niagra Falls rhyw awr o Buffalo a chan fod y tywydd yn oer a dipyn o esgyrn eira ar y ddaear a hwnnw'n fudr, chwawsom ni mo'n gwefreiddio efo'r lle - roedd adeilade modern o'i amgylch yn hagru'r olygfa hefyd.

Y profiad mwyaf gawsom ni oedd gweld y ddrama gerdd 'Cats' yn Theatr Shea's Buffalo yn cael ei chyflwyno gan Cameron Mackintosh a'r Really Useful Company. Dyma wefr annisgrifiadwy ac er nad oedd Ceri a finne'n deall fawr ar y plot a'r geirie, roedd cerddoriaeth Andrew Lloyd Webber mor arallfydol, y set, y gwisgoedd a'r sain mor wych fel ein bod bron â chrio wrth wrando ar 'Memory' yn cael ei chanu mor 'gofiadwy'.

FFAIR CAIO 1989

Dros Ŵyl y Banc ddiwedd Awst eleni bwriedir cynnal Ffair Caio unwaith eto a hynny am y tro cyntaf mewn deng mlynedd a thrigain.

Yr oedd ffeiriau Caio, pentref bychan yng Ngogledd Orllewin yr hen Sir Gaerfyrddin, ymhlith y mwyaf yng Nghymru ac fe'u trefnwyd ar gyfer y porthmyn ar ran gyntaf eu taith i Loegr.

Gobeithiwn ail-greu awyrgylch diwrnod ffair slawer dydd gyda stondinau ac arwerthiant o dda byw ynghyd ag amryw o atyniadau eraill ar y dydd Sadwrn. Dros y penwythnos trefnir GŴyl Flodau yn Eglwys Sant Cynwyl ac arddangosfa yn y Capel i bortreadu bywyd a gwaith Jane Evans o Gaio a fu'n nyrsio yn Rhyfel y Crimea. Cyflwynir holl elw'r penwythnos at Eglwys a Chapel Caio.

Os oes gennych hanesyn, hen luniau neu unrhyw gofnod ysgrifenedig a all fod yn berthnasol a wnewch chi gysylltu â Mr Peris James, Swyddfa'r Post, Caio, Llanwrda, Dyfed (05585) 252.

Edrychwn ymlaen at ffair lewyrchus gan hyderu y cawn eich gweld yma.

NYTH CACWN

Mae'r actor William Vaughan o Riwbeina, Caerdydd, ynghanol NYTH CACWN.

Cewch ei weld yn chwarae rhan Herbert Thomas cymydog goddefgar Gwyneth (Grett Jenkins) yng nghyfres newydd Teledu'r Tir Glas 'NYTH CACWN' am 8.30 bob nos Sadwrn ar S4C.

Ifan Gruffydd ac Euros Lewis Felinfach, sydd wedi ysgrifennu'r sgript a bydd Ifan Gruffydd yn chwarae rhan William y Gwas, sy'n creu problemau di-ri i deulu NYTH CACWN.

Cofiwch ddilyn helynt y ffermdy yma yng Ngorllewin Cymru ac edrych yn nhudalennau SBEC lle mae cystadleuaeth NYTH CACWN gyda gwobr o fasged fwyd gan Gwmni 'HOLGATES WELSH PANTRY' o'i siop yn Nhywyn.

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Y GYMANFA GYFFREDINOL

CAPEL SALEM, CANTON CAERDYDD

GORFFENNAF 3-6, 1989

RHAGLEN Y CYFARFODYDD CYHOEDDUS

i'w cynnal yng Nghapel Salem, Canton, Caerdydd

Dydd Sul, Gorffennaf 2, 1989
Am 6.00 p.m.
CYFARFOD UNEDIG
I annerch:
Y Gwir Barch. Ddr. Victor Premasagar, Yr India

Dydd Llun, Gorffennaf 3, 1989
Am 7.30 p.m.
GWASANAETH Y PLANT
'Teulu'r Byd'
Cyflwyniad gan
Blant Ysgolion Sul Salem, Y Crwys a'r Rhondda

Dydd Mawrth, Gorffennaf 4, 1989
Am 7.30 p.m.
Araith Ymadawol y Llywydd:
Parch. R. G. Alun Richards, B.A., B.D., Treforys
Arwisgo y Llywydd Etholedig:
Mr. R. M. Edwards, LL.B., Croesoswallt

Dydd Mercher, Gorffennaf 5, 1989
Am 9.30 a.m.
Gwasanaeth Coffâd a Sacrament Swper yr Arglwydd
I annerch: Parch. W. Huw Whomsley, B.A., Llanelli

Am 11.45 a.m.
Y Ddarlith Davies
Darlithydd:
Parch. D. Elwyn Edwards, B.A., B.D., B.Litt., Caernarfon
Testun: Jonathan Edwards (1703-1758)
Golwg ar ddylanwad Diwinydd y Deffroad Mawr
ar fywyd crefyddol Cymru a Lloegr

Am 4.45 p.m.
Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Hanes
Darlithydd: Parch. Ddr. R. Watcyn James, B.D., Tycroes
Testun:
Ymateb y Methodistiaid Cymraeg i'r Chwyldro Ffrengig

Am 7.30 p.m.
Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd y Genhadaeth
Anerchiadau: Parch. Paul Chen, Taiwan
Miss Frances Briennen, Yr Iseldiroedd
Y Gwir Barchedig Maitland Evans, Jamaica

Dydd Iau, Gorffennaf 6, 1989
Am 7.30 p.m.
Gwasanaeth Pregethu
Pregethwr Gwadd:
Parch. Pryderi Llwyd Jones, B.A., B.D., Wrecsam

ARDDANGOSFA A STONDIN LYFRAU
Yn Festri Capel Salem
Dydd Mawrth, Gorffennaf 4 hyd dydd Iau, Gorffennaf 6

Cyfle Arbennig

Y mae angen tiwtoriaid gwirfoddol i ddysgu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, o fis Medi 1989 ymlaen, yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd.

Cynigir hyfforddiant proffesiynol.

Am fwy o fanylion cysyllter ag Ian Myhre, Caerdydd 487159, neu Joan Williams, Y Barri 736983.

SYMUD

DYLID ANFON DEUNYDD AR GYFER RHIFYN GORFFENNAR/AWST AT Y GOLYGYDD ERBYN MEHEFIN Y 26ain CYFEIRIAD NEWYDD Y GOLYGYDD YW

FFLAT 5,
YR HEN DŶ,
HEOL FAIR,
LLANDAF,
CAERDYDD. CF5 2EE.

567438

Colofn Shân Emlyn

Y newydd mawr yn fy hanes i y mis yma yw fy mod ar fin mudo! Ar hyn o bryd, rwyf ynghanol llanast clirio un tŷ a diddosi fflat ym mhen arall y Ddinas, a'r dasg o ffitio chwart i bot peint! A deud y gwir rydw i'n mynd o un ddinas i'r llall - o ddinas Caerdydd i ddinas Llandaf. Felly, rhyw gyfnod o "dynnu yma i lawr a chodi draw" ydi fy hanes i. Gwaith digon blinedig, ar hyn o bryd y mae yna lanast o dan y ddau do. Bob tro yr af i'r fflat yn Llandaf gofalaf beidio â mynd yn waglaw - a'r cwestiwn beunyddiol ydi - "be allai wneud hebddo fan hyn am rai wythnosau?" Yna llenwi cist y car a stryffaglo efo bagiau du llawn i fyny'r grisia i lawr uchaf y tŷ hynafol gyferbyn â'r Eglwys Gadeiriol. Siawns na wnaiff les i'm siap!

Ond, y mae gen i broblem cofiwch - yn swyddogol, fy nghyfeiriad newydd fydd 5 The Old House, The Green, Llandaf. Am resymau amlwg, nid wyf yn teimlo ei fod yn fy ngweddu, felly rwyf yn y broses o geisio cael caniatad i'w Gymreigio, a'i newid i 5 Yr Hendy, Y Llain, Llandaf. Fe fyddai hynny yn fwy cydnaws â Golygydd Y Dinesydd hefyd oni fyddai? Y mae drws y fflat yn Heol Fair, ac fe fodlonwn ar 5 Yr Hendy, Heol Fair, Llandaf. Nid wyf eto wedi cael ateb i'm cais. Yn anffodus, bydd raid imi hefyd newid fy rhif ffôn, nid wyf yn gwybod beth fydd hwnnw chwaith. Tipyn o benbleth felly ydi gwybod i ble y dylech anfon deunydd ar gyfer y rhofyn nesaf. Y peth saffaf, mae'n debyg fydd i chi, am y tro olaf, anfon I Goed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed. Mae'n siwr, os byddaf wedi symud, y gellir trefnu i sil-gyfeirio'r cyfan - i gyfeiriad Cymraeg - gobeithio!

Yn ddiweddar, dwi'm yn siwr a ges i gompliment ai peidio. Yn sgil holl newidiadau'r mudo, bu raid i mi ffonio un o swyddfeydd y Llywodraeth, i holi am un o'i hylltod ffurflenni. Dyn clên iawn y pen arall i'r ffôn, ac yn esbonio'r cymhlethdodau'n ddigon syml i mi. Gofynodd am fanylion, rhoddais f'enw ac meddai "O, do you still sing?" Gyda syndod, dyma fi'n gofyn "O, dach chi'n siarad Cymraeg ta?" - "O no, my mother used to rave about you in Eisteddfodau in the OLD days"! Tydi hi'n fendith bod gan rywun synnwyr digrifwch 'dwch? Bob tro y byddaf yn meddwl am y sgwrs ffôn honno, fe ddaw gwên a chwerthiniad drostai.

Yna, yn sgil y symud, cysylltu â gŵr fu'n paentio a phapuro imi am flynyddoedd. Ei gyfarfod yn y fflat, a mynegi fy mwriad a'm syniadau. Cof da ganddo yntau. Cyn imi fynegi fy syniadau, medda fo "I suppose you're going to say, blue and white throughout, even though I've tried telling you that blue is a cold colour". Ia, cof da, ac wedi f'adnabod yn bur dda dros y blynyddoedd. Dim ond pum gair oedd i f'ateb "Yes, blue and white everywhere"!

Dwn i gwirioneddau mawr y mis yma. Tybed beth fydd ein hynt a'n helynt i gyd erbyn y rhifyn nesaf? Amser a ddengys.

Hel meddyliau

Ifor Rees yw ysgrifennydd cydwybodol Cymrodorion Caerdydd ac ar y 13 o fis Mai trefnodd ddiwrnod heulog a bws cyffyrddus Bebb i'r gymdeithas fynd ar bererindod i Neuadd Lwyd, Dyffryn Aeron, nid nepell o Aberaeron. Gŵyr pob Annibynnwyr gwerth ei halen mai oddi yno, pan oedd y Parch Thomas Phillips (1772-1842) yn weinidog yno a chodi ysgol i baratoi bechgyn ifainc at gyfer y weinidogaeth, yr aeth David Jones a Thomas Bevan yn genhadon cyntaf o Gymru i Fadagascar. Mae'n stori drist, yn stori o arwriaeth fawr ac yn stori wefreiddiol. Cafwyd rhywfaint o'r wefr yn ôl wrth wrando ar weinidog presennol yr eglwys, y Parch Gwynfryn Jones yn adrodd y stori a'r Parch Mair Griffiths, Minny Street, a fu yno'n genhades am flynyddoedd, yn rhoi gair o brofiad. Mae rhai o Gristnogion Madagascar yn dal i ddod nôl i Neuadd Lwyd i ddiolch am y ddau genhadwr a dioloh i Gymru am y fath roddion.

Ar y 13 o'r mis hwn, bydd nifer fawr (gobeithio) o Annibynwyr, fel rhan o weithgarwch eu Hundeb yn Y Barri a Phenarth, yn pererindota i Lanfaches i gofio 1639-350 union o flynyddoedd yn ôl - pan gorffolwyd yr eglwys Annibynnol, Anghydffurfiol gyntaf yng Nghymru. Cânt deimlo gwefr yno hefyd, gobeithio.

Ei sefydlydd, gydag eraill, oedd William Wroth, rheithor Llanfaches ar y pryd ond a ddatblygodd yn Biwritan tanbaid erbyn 1630. Dau o'i gynorthwywyr oedd William Erbury a Walter Cradock, y naill yn ficer eglwysi Sant Ioan a'r Santes Fair (dyna pam "St Mary's St") yng Nghaerdydd 'ma a'r llall yn gurad iddo. Dyna gysylltiadau diddorol a phwysig â Chaerdydd.

Meddai'r Dr R Tudur Jones, "Gadawodd eglwys Llanfaches ei hôl yn drwm ar y gŵyr a'i hadnabu. Llesmeiriai Erbury ymhen blynyddoedd wrth gofio ei grasusau..."

Mae traddodiad yn dweud fod Sacheus ar ôl ei droedigaeth yn dychwelyd o dro i dro i anwesu'r sycamorwydden speshial honno yn Jericho. Nod oes eisiau gofyn pam. Dyna yw hanes i rai ohonom - cyffwrdd â rhyw sycamorwydden neu'i gilydd i gael gwefr yn ôl. Dyna wna rhai ohonom ar y 13 o'r mis hwn. A bydd Ifor Rees fel Annibynnwr dosbarth cyntaf yn siwr o fod yno....

Huw Ethall

Llongyfarchiadau i Tom Owen, Pennaeth Cyngor y Celfyddydau ar ennill ei le mewn gornest Croeseiriau. Trechodd un o bencampwyr y byd hwn, Dr John Dykes, fu'n bencampwr cenedlaethol wyth gwaith. Tom Owen ddaeth yn gyntaf yn y rownd rhanbarthol. Bydd yn cymryd rhan yn y rownd derfynol genedlaethol o bencampwriaeth "The Times - Collins Dictionary Crossword" fis Medi. Dymunwn yn dda iddo, gan ofyn cwestiwn fach chwaraeus - pam nad yw ei enw wedi ymddangos fel un o ddatryswyr Croesair ap Lewsyn yn Y Dinesydd?

BUTH RUTH

Y mae Ruth yn torheulo'n braf yng Ngorfu, ac wedi llwyr anghofio am Y Dinesydd y mis yma. Caiff faddeuant llwyr a wiw imi adael ei cholofn yn wag, felly dyma fynd i bori yn y llyfr difyr hwnnw "Bwyty Byrti", gyhoeddwyd fel rhan i chwyddo coffau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd 1985, a, wir, yno y mae yna resait gan Ruth - ac felly dyma fo i lenwi colofn Ruth.

PASTA PARRY

1 pwys o friwgig
1 nionyn mawr
½ owns o sawrlysiau
4 owns o lysiau (sbarion o bryd arall, neu lysiau cymysg)
2 ll f o olew
½ - ¾ pwys o gylchoedd neu gregyn pasta (neu datws wedi'i berwi a'i sleisio'n denau)
4 owns o gaws Caer wedi'i falu'n fân

Ffriwch y nionyn, wedi'i sleisio'n denau yn yr olew mewn sosban go fawr, ychwanegwch y sawrlysiau a'r llysiau a'u cymysgu'n dda, yna eu trosglwyddo i ddysgl ag ochrau dwfn iddi. Berwch y cregyn neu'r cylchoeddpasta mewn dŵr berwedig, hidlwch nhw a'u rhoi dros y cig nes ei orchuddio'n gyfangwbl. Sgeintiwch y caws dros y pasta neu'r tatws a rhoi'r ddysgl yn y popty ar wres marc nwy 2 (300°F) (150°C) am 30 40 munud - nes bod y caws yn diferu ac yn brownio. Gweiniwch efo salad gwyrdd neu frechdan ffres. Mae'n rhewi'n dda hefyd. Mae'n fyrbryd addas i swper neu amser cinio, yn flasus, syml ac yn edrych yn dda.

THEATR SHERMAN

Y TYMOR CYMRAEG

Adar Heb Adenydd gan Edward Thomas
Cynhyrchiad Cyntaf Cwmni Daear Sylw
ARENA'R SHERMAN Iau 15 - Sad 17 o Fehefin am 8.00pm

Cwmni Whare Teg
Llosgwr
Mae 'Llosgwr' yn seiliedig ar fywyd Dr. William Price, Llantrisant
THEATR SHERMAN Iau 29 Mehefin am 1.30 & 7.30
Gwen 30 am 10.00 & 7.30 Sad 1 Gorffennaf am 2.00 & 7.00

Arad Goch - Cwmni Theatr Dyfed
SIOE RWTSH RATSH RALA RWDINS
Gan Angharad Tomos
THEATR SHERMAN Sad 24 Mehefin am 2.00pm

Noson ddwyieithog yng nghwmni
DAFYDD IWAN
THEATR SHERMAN Sul 18 Mehefin am 8.00pm

Cydnabyddir yn ddiolchgar
Banc Lloyds

SWYDDFA DOCYNNAU
(0222) 230451

Aled Vaughan

Chwith meddwl fod Aled Vaughan wedi'n gadael ni, ar ôl cystudd blin. Roedd yn ddyn mor sionc a heini, yn llawn bywyd ac yn fwrlwm o greadigrwydd. Bachgen o Lyndyfrdwy oedd o, wedi ei eni yno yn 1920. Roedd yn ddisgybl disglair yn yr ysgol ond bu raid iddo adael yn gynnar iawn oherwydd marwolaeth ei fam ac anabledd ei dad. Aeth i weithio ar y tir yn Swydd Caer, a theimlo bod bywyd yno, a'r byd Saesneg, yn llai cul na'r un Cymraeg Biwritanaidd. Trodd ei gefn at y capel, ac ar yr iaith i raddau.

Ymunodd â'r RAF, er yn casau rhyfel. Bu raid iddo adael oherwydd gwaedlif yn ei lygad, yn 1944, ac ymsefydlodd yn Llundain, priodi Jeanne, a chael dau o blant: Gareth, sydd â'i fryd ar ddychwelyd i Gymru o Loegr, a Siân, sy'n gweithio yn adran graffeg BBC Cymru. Tra yn Llundain roedd Aled wedi dechrau sgrifennu, yn Saesneg, ac yn cael ei gyhoeddi mewn cylchgronnau safaonol. Aeth un o'i storiau, The White Dove, i nifer o gsagliadau o storiau gorau'r byd.

Gweithiai fel newyddiadurwr, ac yna ymunodd â'r BBC, a dŵad yn ôl i Gymru yn 1952, i weithio mewn radio yn Abertawe.

Daeth i Gaerdydd, ac i fyd teledu, yn 1960. Ail-afaelodd yn ei famiaith, a llunio nifer o raglenni dogfen cofiadwy am bobl a phethau: Bugeiliaid Moel Siabod, Kate Roberts, Caradoc Evans, ac ati. A daliodd i sgrifennu.Cafwyd nofel, Seduction, a chyfieithwyd hi i'r Gymraeg, dan y teitl Trais. Cafwyd rhai eraill, un nofel heb ei chyhoeddi eto. Trodd i fyd newydd pan ymunodd â'r criw bach a sefydlodd Teledu Harlech, HTV erbyn hyn. Cafodd gyfle i hybu ei gred yn yr ifanc, mewn cymod rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, ac mewn hybu awduron a chyfansoddwyr opera.

Ymddeolodd yn gynnar, a symud i Wynedd i sgrifennu, ac ail-afael yn ei gariad at gefn gwlad, yn ogystal â theithio byd. Roedd wedi claddu ei wraig gyntaf ar ôl gwaeledd hir. Ail-briododd, â Nerys. Roeddyn nhw'n ddau enaid hoff, cytun. Cawsant gyfnod o hapusrwydd arbennig, cyn i'w afiechyd aneguol ei oddiweddyd.

Mae ei lwch yn ôl ar ei hoff Ferwyn. Roedd ganddo gymaint i'w ddweud wrth yr ardal, ond hefyd wrth Gaerdydd, lle treuliodd gymaint o amser a lle mae ganddo gymaint o ffrindiau. H.P.J

Hywel D Roberts

Mae'n anodd derbyn i r adeg ddod i ddweud gair i gofio am y diweddar Hywel D. Roberts. Rywsut dyw'r geiriau ddim yn disgyn yn iawn ar bapur am inni gael ein cyflyru i gredu y byddai rhywun mor ieuanc ei ysbryd ag ef gyda ni bob amser.

A chan ei fod mor amlochrog ei ddoniau mae'n anodd gwybod ble mae dechrau.

Y tro cyntaf i mi ei weld oedd mewn eisteddfod; ef wrth ford fechan ar lawr capel, a nifer o blant yn adrodd o'i flaen.

Gorchwyl ddigon od yw beirniadu cystadleuaeth i blant. Fel rheol, y cyfan y maen nhw'i eisiau glywed yw pwy sy wedi ennill; yn bennaf efallai am fod sawl beirniad yn anelu ei sylwadau at athrawon neu rieni.

Ond nid felly Hywel. Mynnai ef siarad â'r plant eu hunain a byddai ei sylwadau bob amser yn adeiladol a charedig. Rywsut roedd yn well colli gydag ef nag ennill gydag ambell un arall.

Roedd yn arweinydd at flaen ei fysedd ac nid pawb sy'n gwybod iddo gyrraedd statws lled uchel yn y 'fyddin' pan oedd yn bymtheg oed.

Fel y mae'n digwydd 'byddin' o adran yr Urdd yn Ysgol Pen-y-groes, bro'i febyd, oedd honno. Ef a'i cychwynnodd yn 1924, ar adeg pan arddelai'r Urdd ambell ymadrodd militaraidd ei naws. Roedd am i'w adran gwrdd ar ôl yr ysgol un pnawn a gofynnodd i'w brifathro gyhoeddi hyn ar ôl y gwasanaeth boreol. Meddai hwnnw, 'General Roberts will meet his battalion in the Lecture Room at 4.00 o'clock.'

Ac mae'n dda cael cyhoeddi llun o 'General' Roberts, pymtheg oed, oherwydd, er nad oedd yr ymadrodd Seisnig yn gweddu o gwbl, roedd ysbryd y gair yn ffitio fel maneg. Dŵ'n 'gadfridog' cadarn i'r Urdd drwy'r blynyddoedd ac yn barod bob amser i wynebu unrhyw her.

Ceir hanesyn am y 'Cadfridog' R.E. Griffith, prif drefnydd yr Urdd am flynyddoedd, yn gorfod wynebu tribiwnlys yn ystod y rhyfel am ei fod yn ymwrthodwr cydwybodol. Pan ofynnodd y barnwr a oedd am alw ar unrhyw dyst i'w gefnogi, dywedodd nad oedd. Yna meddai'r barnwr, 'Is there no one in court who knows the appellant?

Mewn fflach, roedd Hywel ar ei draed ac yn cefnogi. Un cadfridog yn helpu'r llall!

Flynyddoedd yn ddiweddarach cawn olwg arall ar y stori hon.

Gŵyr pawb am y gwaith mawr a wnaeth Hywel gydag Eisteddfod Llangollen; yn un o'i harweinyddion o'r cychwyn cyntaf.

Mae'n siŵr iddo gael tasgau ddigon anodd yn y gwaith amlieithog hwnnw ond un o'r rhai anoddaf i gyd oedd cyflwyno cŵr ifanc o'r Almaen rai blynyddoedd ar ôl i'r rhyfel ddod i ben; cyfnod pan oedd sawl clwy'n dal i waedu. Hwn oedd y cyntaf i fentro.

Pan oedd yn brifathro yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth, hoffai gael y plant i edrych yn adeiladol ar fywyd y tu allan i furiau'r ysgol a mynnai iddyn nhw fod yn ymwybodol o bobl a digwyddiadau pwysig.

Pe deuai un o bobl amlwg Cymru i'r ysgol yn ystod y gwasanaeth bore, câi wahoddiad i ymuno a byddai'r prifathro'n ei gyflwyno i'r disgyblion ac yn sôn am ei waith.

Daeth gŵr enwog lleol i'r ysgol un bore ac wrth ei gyflwyno disgrifiodd Hywel y gwaith pwysig a wnâi a dywedodd ei fod yn un o fawrion y genedl.

'Nag yw,' meddai llais pendant o blith y babanod, 'Ond Dad yw e!'

Rhaid diolch i Mr Ron Hardacre, Coleg Cyncoed am y lluniau a atgynhyrchir yma, gŵr y bu'n cydweithio llawer ag ef. Dewisodd Mr Hardacre y rhain am eu bod yn dweud cymaint amdano.

Treuliodd dipyn o'i amser wrth y ddesg a welir yn y llun, gyda rhyw fyfyriwr neu'i gilydd o'i flaen. Deuai hwnnw'n amlach na pheidio ato'n bryderon i gyd a gadael â chalon ysgafnach gan y gwyddai ei bennaeth adran i'r dim sut i ddod o hyd i ymylon arian pob cwmwl. A bydd myfyrwyr dros y byd yn cofio'n gynnes amdano oherwydd hyn.

Y gofgolofn a adawodd ar ei ôl oedd gwlad fach a wnaed yn fwy a gwell oherwydd ei fyw. Ac erbyn meddwl ni ellid meddwl am gofgolofn well.

Gallai'r sefyllfa fod yn ddigon anodd a safai'r cŵr yn nerfus yng nghefn y llwyfan tra cerddai'r arweinydd bychan ei gorff at y meic i gyflwyno'n dawel a diymhongar, 'Ein cyfeillion o'r Almaen.'

Torrwyd yr iâ a dywed arweinydd y cŵr i'r cyflwyniad (a esgorodd ar y croeso a gafwyd) ysgogi'r cŵr i ganu ar ei orau.

Bu'r gallu ganddo drwy ei oes i dawelu pob ton yn ddiffwdan a gallai gael ei dîm o athrawon neu ddarlithwyr roi o'u gorau iddo heb ddangos ei awdurdod mewn unrhyw fforddd.

Daeth y newyddion trist o Gaernarfon am farwolaeth y Parch J D Roberts, tad Huw Roberts a Buddug Lloyd. Cydymdeimlwn yn ddwys â Huw a Lona Buddug a John a'u teuluoedd yn eu hiraeth. W. J. J.

YR EGLWYS NEWYDD

Rai blynyddoedd yn ôl fe gyhoeddodd y Western Mail restr o enwau nifer o bobl o Gaerdydd a'r cyffiniau, gan nodi ym mha ardal roedd pob un yn byw. Yn y rhestr roedd enw un a oedd wedi rhoi 'Yr Eglwysnewydd' fel cyfeiriad, ond gwelodd rhyw is-olygydd yn dda i drosi hwn i **Newchurch** yn y papur - er mwyn efallai i'r byd a'r betws ddeall yn iawn o ble yn union y deuai'r brawd hwnnw. Hyd y gwn ni - er y gallwn fod yn methu - fu **Newchurch** erioed yn enw ar y rhan hon o'r wlad sy'n gorwedd ychydig i'r gogledd o ganol dinas Caerdydd.

Bron na ddywedwn fod Yr Eglwysnewydd bellach yn rhan o'r ddinas a "chath go heini" chwedl T.H. Parry Williams, yn gallu cerdded" (a llamu ambell heol) hyd gribau'r tai yn awr", bob cam o Coryton yn y gogledd i Neuadd y Ddinas ac oddi yno i aber Afon Taf.

Ystrydeb, wrth gwrs, yw crybwyll mai tyfu'n gyflym yn ystod y ganrif ddiwethaf a wnaeth y 'pentref' hwn. O graffu ar Fap y Llywodraeth 1880, mae'n hawdd gweld mai ardal hollol wledig oedd yma y pryd hwnnw - ychydig o dai a thafarndai ac ambell gapel o boptu Heol Merthyr, a chaeau ffermydd a'u hamgylch. Yn fuan ar ôl cyhoeddi'r map hwnnw y dechreuodd y newid mawr. Diflannodd y caeau o un i un dan rwydwaith o strydoedd o dai ac ar fap arall a gyhoeddwyd yn 1922 gallwn weld hefyd orsaf heddlu a llyfrgell a'r ysbyty mawr yn y gogledd, bron yng nghysgod y Castell Coch. Gerllaw'r ysbyty roedd arosfa Coryton ar y lein newydd, y **Cardiff Railway** ("lein y Bute"), a redai ymlaen tua'r dwyrain drwy Riwbeina a Llwynfedw cyn troi i'r de ac anelu am orsaf Heol y Frenhines - lein a adnewyddwyd yn ddiweddar i uno nifer o faestrefi'r ddinas.

Whitchurch yw enw'r pentref ar y ddau fap hyn, gydag 'Eglwys-newydd' mewn cromfachau ar gopi 1922. Yn ei gofnod o'i deithiau trwy Gymru a Lloegr 1534 a 1543, mae John Leland - ysgolhaig a hynafiaethydd a benodwyd yn llyfrgellydd Harri'r VIII yn 1533 - yn cyfeirio at **Eglvis Newith** ym mhlwyf Llandaf, sef y gyntaf, mae'n debyg, o dair eglwys o leiaf a sefydlwyd yn yr ardal i gyd wedi'u cysegru i'r Santes Fair. "Eglwys Newydd", sylwer, yn hytrach nag 'Eglwys Wen'; does dim tystiolaeth fod defnyddio cyffredin ar yr enw hwnnw, hyd yn oed pan oedd poblogaeth yr ardal yn gwbl Gymraeg. Ond mae'r enw Eglwys Wen yn para ar un o dair ysgol gynradd y pentref heddiw.

Yn yr Oesoedd Canol mae'n debyg bod sefydliad mynachaidd yn y cylch, o'r enw **Album Monasterium** neu **Blancminster** - y ddau enw'n cyfateb i **Whitchurch** - er bod rhai wedi awgrymu mai capel gwyngalchog yn hytrach na mynachod fu'n gyfrifol am yr enwau hyn! Enw hyn fyth oedd **Stuntaf** sydd i'w gael mewn dogfen o 1126, mewn cyfeiriad at **capella de stuntaf**, sef 'capel Ystum Taf', a thybir mai gerllaw tro yn Afon Taf, tua Melingriffith hwyrach, y codwyd y capel hwn. (Mae'n ddiddorol nodi bod yr enw Ystum Taf yn ailennill ei le yn yr ardal, i ddynodi 'Llandaff North'.

Enw cyfarwydd i drigolion yr Eglwysnewydd yw Melingriffith. Dywedir mai Gruffydd, mab Ifor Bach a roes ei enw i'r ardal hon lle safai melin yd ar lan Afon Taf y Canol Oesoedd; daliai hon i falu grawn yn nechrau'r ddeunawfed ganrif, ond daeth meistri haearn i ddisodli'r melinwyr, a chodwyd gefail yno i boethofannu'r mwyn a chynhyrchu tunplat, ac adeiladwyd tai gweithwyr yn y cylch. Ychydig o olion yr hen weithfeydd sydd i'w gweld erbyn hyn, ond mae ystad ddiwydiannol fodern wedi codi yn y cyffiniau - ac mae'r enw'n para yn enw'r ysgol gynradd a agorwyd yn yr Eglwysnewydd ym mis Medi 1979, ac a fydd felly yn dathlu ei degfed penblwydd eleni; 65 o blant oedd yn Ysgol Melin Gruffydd pan agorwyd hi, a 235 sydd yno heddiw. Llwyddiant ysgubol felly, a phob disgybl ar hyd y deng mlynedd, ar ol gorffen ei gwrs yno, wedi mynd ymlaen i Ysgol Uwchradd Glantaf.

Bu'r ysgol yn cyson gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn anfon disgyblion i Wersyll Llangrannog. Yn ddiweddar bu rhai o'r plant yng Nglwyd yn astudio amgylchedd y rhanbarth hwnnw. Mae'n bleser adrodd bod cydweithrediad hapus iawn yn bodoli rhwng Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Eglwys Wen sy'n rhannu'r un campws, a rhwng y ddau brifathro, Gareth Evans a Peter Morgan, Cymro Cymraeg o Frynaman.

Pysgod Ffres

BIRDS

4 Ffordd Merthyr,
Yr Eglwys Newydd.
Ffôn 628028



Roger Walters
Papur Wal a Defnyddiau

50 Ffordd Merthyr,
Yr Eglwys Newydd.
Ffôn 613510

- DDOE A HEDDIW

Mae nifer o Gymry ifainc wedi ymsefydlu yn y pentre yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, ac weithiau clywir Cymraeg ar y strydoedd. Ar gyfer plant y teuluoedd hyn ac eraill sydd am i'w plant fwynhau addysg Gymraeg, mae yna ddwy Ysgol Feithrin a dau Gylch Mam a'i Phlentyn.

Mae llu o enwau Cymraeg yn aros yn y cylch hyd heddiw sy'n dyst bod yr Eglwysnewydd gynt yn ardal Gymraeg iawn. Enwau Cymraeg oedd ar ffermydd y cylch, megis Ty'n y Parc, Ty'n y Pwll, Rowldon (= Yr Heol Don), Glan y Nant y Wenallt, ac fe gawn Pendwyallt, Felindre, y Philog (bu llawer o grafu pen ynglyn ag ystyr hwn) Heol y Forlan (o'r gair furlong tybed?) a Gwaun Treoda (a phwy oedd Oda?), ac mai **Difrin Anovid** (= Cwm Nofydd?) i'w gael yn Llyfr Llandaf. Ac wrth gwrs achosion Cymraeg oedd eglwysi Ararat a'r Tabernacle pan sefydlwyd hwy.

Ers blynyddoedd bu cymdeithas Gymraeg yn cyfarfod ym misoedd y gaeaf, sef 'Cymry'r Eglwysnewydd' - neu **Whitchurch Welsh** weithiau!! Yr hyn a garai'r aelodau presennol fyddai llwyddo i ddenu mwy o'r to iau i ymddiddori yn y gymdeithas hon a mynychu'r cyfarfodydd.

I ateb galw gan rai o Gymry'r Eglwysnewydd mae cangen o Ysgol Sul plant Eglwys Y Crwys yn cyfarfod yn festri'r Tabernacle ar brynhawn Sul - sy'n denu hefyd blant nad oes gan eu teuluoedd gysylltiad o gwbl ag Eglwys y Crwys.

Mae'r stryd fawr, Heol Merthyr, heddiw yn ganolfan siopa hwylus iawn, a hyd yn hyn ychydig o'r siopau sydd wedi gorfod cau er bod nifer o archfarchnadoedd wedi'u hagor yn y cyffiniau.

I'r rhai sy'n hoff o fyd natur mae gwarchodfa i'w chael rhwng Melingriffith a Thongwynlais ers 1967 ar lannau'r hen gamlas a agorwyd yn 1794 i gludo cynnyrch gweithfeydd haearn Merthyr, Dowlais a Chyfarthfa i'r porthladd. Does dim trafnidiaeth heddiw ar y gamlas, ond mae digonedd o fywyd gwyllt yno i'r cyhoedd ei wylio a'i fwynhau.

Do, bu llawer tro ar fyd yn yr Eglwysnewydd rhwng doe a heddiw.

D. GWYN JONES

Pizzeria Villaggio

AM PASTA NEU PIZZA?

73 Ffordd Merthyr,
Yr Eglwys Newydd.
Ffôn 613110

J.K.REES
CIGYDD

Gwasanaeth Dosbarthu Rhad

Cigoedd Cartref

8 Ffordd Merthyr,
Yr Eglwys Newydd.
Ffôn 693964

Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).

EISIAU GWAITH?

YN EISIAU YM MEDI '89

-*-

Arweinyddes Y Feithrinfa
38 Park Place, Caerdydd

4/5 bore yr wythnos
9.30 - 11.30

-*-

CYLCH MEITHRIN TREGANNA

ARWEINYDDES

5 bore yr wythnos
9.30 - 12.00

-*-

YN EISIAU YM MEDI '89
(neu yn gynharach os yn bosibl)

CYLCH MEITHRIN YSTUM TÂF
ARWEINYDDES

3 bore 9.00 - 12.00
1 prynhawn 1.30 - 3.30

-*-

CYLCH MEITHRIN TREODA
(Yr Eglwys Newydd)

CYNORTHWYDD

5 bore yr wythnos
9.00 - 12.00

-*-

Am fanylion pellach cysylltwch ag:
Elaine Pye, Swyddog Datblygu Caerdydd
Ffôn 762232

HYSBYSEBWCH yn

Y DINESYDD

Am fanylion cysyllter â:
Tony Couch
2 Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd. CF4 5QH.

Ffôn: Caerdydd 753625
neu 615821 est. 344

CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Llywydd: Y Parchedig F.J.Saunders Davies, M.A.

Trysorydd:

Mr.S.Iwan Jones,B.A.,
Cilsanws,
38 Thornhill Road,
Caerdydd.
CF4 6PF
(0222) 752727

Ysgrifennydd:

Mr. Illtyd Lewis, B.A.,
25 Marlborough Road,
Y Rhath,
Caerdydd.
CF2 5BT
(0222) 493976

22 Mai,1989.

Annwyl Syr,

Mewn cyfarfod o Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd nos Iau, Mai 18 eleni, penderfynwyd yn unfrydol i ysgrifennu atoch i fynegi ein gofid na welodd Cyngor Dinas Caerdydd yn dda i ddosbarthu Ffurflen Gofrestru'r Tâl Cymunedol ynghyd â'ch llythyr esboniadol chwithau yn ddwyieithog. Gresynwn nad yw Cyngor prifddinas Cymru wedi rhoi'r un parch i iaith y Cymry yn y mater hwn ag a wnaeth Y Swyddfa Gymreig drwy ddosbarthu yn ogystal â chyhoeddi llyfryn ar y Tâl yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y mae'n rheidrwydd arnom i'ch atgoffa bod miloedd o siaradwyr y Gymraeg yn byw yn y brifddinas, ac yn eu plith nifer sylweddol sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn ail iaith. Tra bod Y Swyddfa Gymreig yn rhoi iddynt o leiaf gyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, nid yw Cyngor Dinas Caerdydd yn cynnig unrhyw anogaeth yn y byd iddynt. Yn hytrach, y mae disgwyl (?) i bawb sy'n siarad yr iaith, pa un a yw'n rhugl ynddi neu'n gwneud ymdrech gymeradwy i'w siarad, gymryd cam pendant ac ymwybodol i ofyn am drosiad Cymraeg o'r ffurflen. Y mae galw ar bobl i haeru'n ddiddiwedd eu bod yn Gymry Cymraeg ac i weithredu'n wahanol i bawb arall er mwyn mynnu'r un hawl ddynol, yn orthrymus ac yn anghyfiawn. Ac anhygoel yw'r eironi bod y galw hwn arnynt ym mhrifddinas eu gwlad.

Ar ei orau, nid yw eich gweithred ond yn amlygu ymagwedd negyddol yr atelir rhywgymaint ar ei fynegiant gan oddefgarwch nawddogllyd ei natur. Ar ei waethaf, nid yw'n hyrwyddo ymdrechion a wneir yn y gyfundrefn addysg i alluogi ein plant i gyfranogi o fwy nag un diwylliant a'u gwerthfawrogi, nac ychwaith mewn cytgord ag argymhellion ieithyddoll blaengar Cyngor Ewrob. Gofidiwn yn ddwys bod ymagweddu fel hyn yn gwneud dim amgen nag esgor ar a chynnal y gwrthwynebu chwyrn a threisiol y byddwn oll yn ei gondemnio, ac y gellid ei osgoi.

Gobeithiwn yn fawr y bydd pob cyfathrebiad o'ch adran yn y dyfodol yn dangos yr un parch i'r Gymraeg a'r Saesneg, a'r bobl sy'n eu siarad, yn ddiwahân.

Yn gywir, J H MARKHAM BA,IPFA
Swyddog Cofrestru'r
Tâl Cymunedol,
Neuadd Y Ddinas,
Caerdydd, CF1 3QQ

Gorchwyl

"Mae'n rhaid dy fod di'n well rwyt ti wedi dechrau crintachu," meddai'r wraig. Ac mae hi'n iawn wrth gwrs, a dau beth sy'n fy mhoeni, yn gyntaf fe ddaeth y ffurflen ar gyfer y dreth gymunedol (Poll Tax) a pha beth bynnag yw'n barn ni ar y peth hwn mae rhaid craffu ar y ffurflen gan ei bod yn uniaith Saesneg a rhaid chwilio'n fanwl am yr ychydig eiriau syn dweud ei bod hi'n boisibl i chi gael fersiwn Gymraeg. Gan mai dim ond un tro y cewch chi hon a wnewch chi'n siwr eich bod yn gofyn am y fersiwn Gymraeg os ydych am ei llanw o gwbl.

Mae'r ail beth yn rhywbeth y gellwch ei wneud yn eich pwysau ond yn dra phwysig. Mae llyfrgell ganol Caerdydd mewn adeilad crand iawn erbyn hyn, ac mae'n werth i chi ymweld â hi gan fod arddangosfa dda o rai o lyfrau Gwasg Gregynnog i'w gweld yno sy'n cynnwys gwaith Eric Gill a David Jones dau o feistri'r ganrif, nid yr ymweliad sy'n bwysig ond y cwyno neu'r crintachu sy'n debyg o ddilyn. Wyddoch chi nad oes dim unrhyw fodd i geisio cael gafael ar unrhywbeth a gyhoeddwyd cyn 1971? Does dim cardiau na dim ar y sgrinau sy yn y lle i alluogi neb i gael gafael ar yr hyn mae'n chwilio amdano a gyhoeddwyd cyn y dyddiau hynny.

Mae'r staff yn wych ac yn gymwynasgar tu hwnt ond mi fydden nhw'n falch iawn pe bai pawb sy â diddordeb mewn gwaith ymchwil o unrhyw fath yn sgrifennu i gwyno wrth y llyfrgellydd. Dyna'r unig ffordd i gael gwasanaeth teilwng. Os cewch gyfle, gwnewch hynny neu mi fydd yr holl adeilad gwych yn ddim ond enghraifft arall o glawr llyfr trawiadol gyda dim ond sothoch o'i fewn.

B.E.

Mae'r

CWMNI BWFFE

ar gael i ddarparu bwyd ar eich cyfer a'i gludo atoch.
Achlysuron busnes a phreifat

Cysylltwch â Non Thomas
0685 50140

Y CALENDR

MEHEFIN.

5. Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 7.30pm. Y siaradwr y Dr Geraint Jenkins, Amgueddfa Werin, Sain Ffagan.

17. Amgueddfa Werin, Sain Ffagan- Gwyl jazz,

24. Ffair Haf Ysgol Glantaf.Agorir am 1.30 gan Caryl Parry Jones.

28. Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr. Selwyn Roderick.

GORFFENNAF.

Gorff. 3ydd. Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Parc, am 7.30.
Gwestai arbennig:- Y Prifathro Glyn O. Phillips, Pennaeth Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru.

Gorffennaf 8
Ysgol Gynradd Albany Road
FFAIR SBORION yn y bore -
Cylch Mam a'i Phlentyn y Rhâth.

15. Amgueddfa Werin Sain Ffagan- Diwrnod i'r Cyhoedd.

Annwyl Olygydd

A fyddech cystal a chynnwys y canlynol yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd?

Enillwyr Cymdeithas Cefnogwyr y Ganolfan

1) Mr a Mrs H P Evans, 23 Alfreda Road, Yr Eglwys Newydd
2) W R a C Jones, 8 St Cyres Road, Penarth
3) E N J Williams, 12 Ilton Road, Penylan

Diolch yn fawr

Nerys Williams

2 Bryn Rhosyn
Radyr
Caerdydd

Penderi,
Rhiwbeina.

Annwyl Olygydd,

Er mawr siom i mi, derbyniais trwy'r post yn ddiweddar ffurflen gofrestru ar gyfer y Dreth Gymuned newydd yn uniaith Saesneg - gyda'r neges fod y ffurflen Gymraeg "available on request".

A gaf fi annog eich darllenwyr i wneud dau beth, os gwelwch yn dda.

1. Gwrthod cwblhau'r ffurflen Saesneg a gofyn am ffurflen Gymraeg.
2. Anfon llythyr at y swyddog perthnasol yn Neuadd y Ddinas yn protestio bod rhaid gofyn am ffurflen Gymraeg

Oni wnaiff cannoedd ohonom hyn, fe fydd yr arfer sarhaus hwn yn parhau a swyddogion yn cyfiawnhau dileu'r ffurflenni Cymraeg yn gyfangwbl gan nad oes llawer o ddefnydd ohonynt. Ffurflenni dwyieithog i bawb yw'r unig ateb boddhaol a theg, yn enwedig ym Mhrifddinas Cymru!

Yn gywir,

Emyr Jenkins.

SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES
Byddwch yn dechrau'r mis gyda digonedd o ynni a brwdfrydedd, ond cadwch y dymer sydyn yna dan reolaeth. Os am lwyddo yn eich gyrfa dilynnwch eich greddf, wnaiff e mo'ch gadael i lawr ar hyn o bryd. Mae hwn yn gyfnod creadigol i wneud rhywbeth yn ei gylch.

TAURUS
Dyma'r mis i drefnu taith egsotig i wlad dramor. Ffoniwch y siop deithio fory nesa! Fe allech gwrdd â rhywun newydd a chyffrous y mis hwn, a synnu llawer un. Os cewch eich temptio i wneud newidiadau yn y gwaith tua diwedd y mis - peidiwch. Mi fydd yn saffach o lawer i chi adael pethau fel y maen nhw am y tro.

GEMINI
Mae hon yn addo bod yn gyfnod rhamantus iawn, a fe allech gael cynnig diddorol o fwy nag un cyfeiriad, os y medrwch chi gael hwyl heb frifo neb - gwnewch a mwynhewch! Ond os ydych am siomi rhywun annwyl mae'n debygol mai chi fydd yn diodde fwyaf yn y pen draw. Fe allai swm o arian hirddisgwyliedig gyrraedd cyn bo hir.

CANCER
Peidiwch â gorwneud pethau ar hyn o bryd, mae eich lefel ynni braidd yn isel, a dych chi ddim eisiau bod yn sâl ydych chi? Gadewch i eraill, mwy egniol ruthro o gwmpas. Rydych chi'n haeddu hoe fach. Peidiwch ag arwyddo dim sy'n golygu gwario arian - tan ddiwedd y mis.

LEO
Mi ddylech wneud yn dda yn y gwaith ar hyn o bryd a chael canmoliaeth am eich dygngarwch - drychafiad hyd yn oed. Bydd un o'ch cydweithwyr yn eich synnu tua chanol y mis, ac yn gwneud bywyd yn ddiddorol iawn am gyfnod. Mae gennych beth wmbredd o allu creadigol ar hyn o bryd, defnyddiwch e yn y gwaith - fyddwch chi ddim yn edifar.:

AQUARIUS
Peidiwch â gwneud addewid byrbwyll na ellwch ei gadw ac efallai siomi rhywun sy'n hŷn na chi. Mae hwn yn gyfnod sêcig iawn i chi felly cymrwch sylw o'ch breuddwydion. Cewch syniad yn sydyn sut i wneud mwy o arian. Peidiwch â gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'ch teulu eto gan nad yw'r ffeithiau i gyd gennych chi ar hyn o bryd.

PISCES
Mae hi'n bwysig eich bod yn nhoi sylw i fanylion y mis hwn er mwyn osgoi camddealldwriaeth. Efallai byddwch yn cyfarfod â ffrind newydd diddorol tua chanol y mis, un fydd yn cael llawer o ddylanwad arnoch yn y misoedd sydd i ddod. Os bu problem yn eich poeni'n ddiweddar ewch dros yr hen dir eto a fe ddaw'r ateb.

VIRGO
Mi ddylech gael mwy o hwyl allan o fywyd ar ôl y 10, ac o hynny ymlaen bydd eich dychymyg byw a'ch syniadau creadigol yn synnu'ch cyd-weithwyr - gwnewch yn siwr mai chi fydd yn elwa o hyn i gyd a nid rhywun arall diegwyddor. Weithiau rydych chi'n rhy onest ac agored gyda'ch syniadau. Mi fyddwch yn gwneud rhywbeth newydd a chyffrous ar y 22.

LIBRA
Mi fyddwch yn treulio mwy o amser yn y cartref ar ôl y 10 ac yn debygol o brynnu rhywbeth annarferol i'w harddu. Mae gennych allu cresdigol mawr ar hyn o bryd yn barod i wneud argraff ar eich cydnabod. Os am gyfle i ddangos eich talent eich hun!

SCORPIO
Os bu problem yn eich poeni ers tro bellach wel dyma'r amser i'w ddatrys a fe ddaw'r ateb yn rhwydd a syml o gyfeiriad cwbl annisgwyl. Ceisiwch dreulio ychydig o amser gyda'ch cymar y mis hwn, mae e wedi bod yn teimlo'n unig yn ddiweddar a mi fydd yn gwerthfawrogi tipyn o sylw a maldod oddi wrthych.

SAGGITTARIUS
Rydych ar drothwy cyfle i wneud arian mewn ffordd anarferol ac annisgwyl gyda'ch talent a'ch gallu creadigol, cymrwch fantais llwyr ohono, ond peidiwch a gwario'n wirion, gan fod rhai dyddiau llwm o'ch blaen eto. Mi fydd rhywun yn y gwaith yn gwerthfawrogi'ch dyfalbarhad a'ch gwaith caled ac yn awyddus i'ch canmol.

CAPRICORN
Peidiwch da chi â gwneud unrhyw benderfyniad ariannol a allai effeithio eich dyfodol tan ddiwedd y mis, dyw pethau ddim yn hollol fel y maen nhw'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Os y cewch chi wahoddiad i gymdeithasu ewch, a mwynhewch, hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel gwneud hynny.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816

CARYS CHEMIST

Ychydig a feddyliodd merch fferyllydd y Y Felinheli y deuai hi, ei gŵr a'r ddau fachgen nôl i Gaerdydd. Ond dyna'n union ddigwyddodd i Carys Chemist.

Fe ddaeth i Gaerdydd gyntaf fel myfyriwr wedi cwblhau ei gyrfa yn Ysgol Ramadeg y Merched, Bangor.Roedd ei bryd nid ar yrfa academig fel y cyfryw ond yn hytrach mewn cangen o waith cymdeithasol. Yn y cyfnod cyn codi Ysbyty'r Brifysgol roedd yr Ysgol Therapi Galwedigaethol yn hen adeilad Howard Gardens ac i'r ysgol honno y daeth Carys Wyn Williams i'w hyfforddi yn ei maes dewisol. Yn ystod ei hamser fel myfyriwr cyfarfu â gŵr ifanc o Doncaster a astudiai Economeg ac yng nghyflawnder amser cymerodd Carys arni enw'r economegydd ifanc Mike Henry.

Wedi i'w chyfnod o hyfforddiant ddod i ben yn llwyddiannus dyma ddechrau ar yr yrfa broffesiynol. Fel Rwth a Naomi lle bynnag yr âi un yno yr âi'r llall Wedi cyfnodau gweddol fyr ym Mirmingham a'r hen Sir Fynwy fel rhan o dîm y Gwasanaethau Cymdeithasol dyma lanio yng Ngwynedd. Yn y cyfnod hwn bu'n gweithio fel Therapydd ymhlith yr anabl o ran meddwl a chorff.

Hefyd yn ystod y blynyddoedd hyn, fe anwyd dau fab yng nghadernid Gwynedd - Dafydd a Guto. Roedd Mike mewn swydd dan Awdurdod Datblygu Cymru a'r Gymraeg yn syrthio'n haws oddi ar ei dafod o ddydd i ddydd.

Flwyddyn yn ol dyma'r teulu'n codi pac ac yn symud i Gaerdydd yn sgil swydd newydd Mike a gafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Ariannol gyda'r Awdurdod Datblygu. Wedi ymgartrefu yn y Gwynfryn, Ffordd Cyncoed, a chael y bechgyn i'w hysgolion - Glantaf ac Ysgol Y Wern - fe gafodd Carys gyfle i ailgydio yn ei gyrfa. Fe'i penodwyd yn Swyddog Cyswllt gan Sefydliad y Deillion Caerdydd. Dechreuodd ar ei gwaith ar y cyntaf o Chwefror mewn swydd sy'n pwyso'n drwm ar ei phrofiad a' harbenigedd.

Maes gofal Sefydliad y Deillion yw anabledd gweld yn bennaf - y dall a'r rhannol ddall Mae gan y Sefydliad, sy'n elusen, draddodiad hir o wasanaethu deillion yr ardal ond dyma'r tro cyntaf iddo gael Swyddog proffesiynol i arolygu a hybu'r gwaith. Mae gofal y Sefydliad yn ymestyn i sawl cyfeiriad - gwerthu nwyddau, cynnal gweithdai i'r anabl, trefnu digwyddiadau ar gyfer y deillion, cynnal canolfan adnoddau a threfnu pob math o amryfal weithgareddau. Yn ei ganolfan yn Ty Shand, 20, Ffordd Casnewydd, mae calon y Sefydliad, ac yma hefyd y caiff Cylchgrawn Llafar De Cymru a Phapur Llafar De Cymru eu cynhyrchu.

Yr hyn sy'n dwyn sylw pennaf Carys Wyn Henry ar hyn o bryd yw TRANSCALL. Cynllun yw hwn sy'n cynnig i'r dall wasanaeth car i'w helpu i fynychu gweithgareddau cyffredinol y gymuned. Dibynna TRANSCALL yn llwyr ar wirfoddolwyr sy'n barod i helpu drwy gynnig cario person dall i gyngerdd neu gyfarfod neu noson gymdeithasol neu ddosbarth nos, pwll nofio, canolfan hamdden ac ati. Mae'r cynllun ar gael i'r sawl sydd wedi methu cael help gan gyfaill neu berthynas neu gydnabod.

Mae Carys wrthi'n paratoi defnyddiau pwrpasol a threfnu cyrsiau hyfforddi, yn canfasio am fwy o wirfoddolwyr i TRANSCALL ac os oes rhywun yn dymuno cynnig help mynnwch air a hi at 473573. Yn ogystal, mae hi'n ymweld a deillion yn eu cartrefi, ag ysgolion a chymdeithasau, i genhadu dros ei gwaith a chwilio am ffyrdd newydd o wasanaethu'r dall, a'r rhannol ddall, yng Nghaerdydd a De Morgannwg.

Mae'n ddiddorol nodi bod swyddfa Carys yn Sefydliad y Deillion ond rownd y gornel i Howard Gardens, lle y daeth Carys Chemist i Gaerdydd ym mlodau ieuenctid. Ergyd carreg i ffwrdd mae Eglwys Y Crwys lle mae'r teulu'n addoli ac felly mae pegiau'r babell yn cael eu gosod yn sownd yn naear Caerdydd. Gobeithio y cawn ni gadw'r teulu am hir.

WYNNE LLOYD

ARDDANGOSFA

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Y Prif Adeilad Parc Cathays

CASGLIAD DEREK WILLIAMS
tan 4 Mehefin

Y tebygrwydd yw erbyn i chi ddarllen hwn y bydd yr arddangosfa trosodd - ond peidiwch gofidio, bydd y trysorau hyn yn rhan o gasgliad parhaol orielau celf yr Amgueddfa. Cyn bo hir, gobeithir cawn weld yr orielau yn agor eto dan eu newydd wedd.

Mab Tudor Williams y syrfewr siartedig oedd Derek Williams. Ganed ym 1930 a bu farw Tachwedd 1984,

Dim ond y rhai agosaf ato a wyr ei fod wrthi dros nifer o flynyddoedd yn prynu a chasglu gweithiau artistiaid fel John Piper, Ceri Richards, Joseph Hermann, David Jones, Ben Nicholson, Yeats a Hitchens. Dros 70 o luniau sy'n gwneud hon y rhodd mwyaf gwerthfawr i'r Amgueddfa ers dyddiau y ddwy chwaer Davies. Dymuniad Derek Williams oedd iddynt "gael eu dangos i'r cyhoedd". Dyma'r tro cyntaf i'r casgliad arddangos yn ei chyfanrwydd, ac er fod llawer ohonynt eisoes wedi hongian yn eu gartrefi, ac yn y swyddfeydd yn Heol Caerffili, ychydig iawn o bobl a wyr ddim amdanynt.

Er nad oedd yr ystafell a ddewisiwyd i ddangos y peintiadau yn un delfrydol iawn am fod y golau o'r ffenestri clerestori yn sgleinio ar y gwydr, braf oedd cael y cyfle i'w gweld. Yr oedd gosod y 22 o ddarluniau John Piper ar y wal yn gwynebu'r fynedfa yn drawiadol iawn, yn enwedig i, mi, 'Capel Curig', Traeth Llanilltyd Fawr, a 'Llanfair Onllwyn'. Yna 13 o weithiau Ceri Richards yn cynnwys rhai o'r gyfres yn darlunio cerddi Dylan Thomas a'r rhai yn dilyn themau cerddorol Debussy.

Rhaid unwaith eto beirniadu am na wnaed ymgais at roddi sylw i'r Gymraeg yn y catalog gwerthfawr a baratowyd gan Mark Evans, Dirprwy Geidwad Celfyddyd Cain yr Amgueddfa. Os yw'r Amgueddfa am ennill parch fel sefydliad Cymreig mae'n rhaid iddi dalu sylw teg a chyfiawn i iaith y genedl. Nid yw pob oriel yn Ffrainc, yr Eidal a'r Almaen ac yn y blaen, bob amser yn paratoi catalogau yn Saesneg, ond yn sicr maent yn iaith y wlad. Od nad ydynt yn gwbl ddarllenadwy i bawb, mae'r darluniau ynddynt yn uniaith.

DARLUNIAU I YSGOLION
24 Mehefin - 16 Gorffennaf

Arddangosfa blynyddol o weithiau ar werth.

Ty Turner
Heol Plymouth Penarth

BRENDA CHAMBERLAIN: ARTIST YNYS
tan 25 Mehefin

Arddangosfa bwysig, adolygol o dros gant o beintiadau, printiadau a dyluniadau gan Brenda Chamberlain 1912 - 1971.
Trefnwyd gan Oriel Mostyn.

Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru
Heol Bute

CANRIF A HANNER O FFOTOGRAFFIAETH

Dathlu penblwydd ffotograffiaeth yn 150 oed. Un o arloeswyr y cyfrwng oedd John Dillwyn Llewellyn, Penllergaer, Abertawe. Hefyd darluniau cyfoes o Gymru a dynnwyd o'r awyr.

Ffotogallery
Heol Siarl

GOLEUNI CELTAIDD
tan 25 Mehefin

Colled

Bydd nifer o Gymry Caerdydd yn cofio'r diweddar June Gruffydd- June Roberts, Carno gynt- a fu farw ar Fai 18fed ar ol afiechyd byr a blin yn Ysbyty'r Royal Free yn LLundain.Gwraig i'r Athro Ceiri Gruffydd,Prifysgol LLundai LLundain oedd June a mam dyner i Gareth, Nia ac Alun.

Fe'i magwyd ym mwynder Maldwyn ond yng nghanol bwrlwm bywyd y brifddinas bu'n gweithio'n ddiwyd am bron i ddeugain mlynedd.Roedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas Cymry LLundain ac yn gyn-Gadeirydd o'r Gymdeithas Lenyddol.Llafuriodd yn ddibaid dros yr Ysgol Gymraeg yn Willesden Green ac roedd yn un o'r rheolwyr sylfaenol. Bu'n Gadeirydd ar Gymdeithas Sir Drefaldwyn ac yn ysgrifennydd i Gymdeithas Cyn Fyfyrwyr Coleg Aberystwyth.Yn 1980 fe'i hapwyntiwyd yn Ysgrifennydd Mygedol i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion.Ynghyd a hyn oll bu June wrthi am flynyddoedd fel swyddog plant gyda Chyngor Llundain

Fwyaf ac yn ddiweddar gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Bwrdeistref Brent cyn ei hymddeoliad y llynedd.

Yng ngeiriau Moelwyn fel y canwyd gydag arddeliad yn yr angladd yng Ngharno

"Gwaith a gorffwys
Bellach wedi mynd yn un"

I'w gwr a'i theulu a'i ffrindiau ymhob man ac i'r llu o gymdeithasau y bu'n gweithio'n ddyfal trostynt

"ADWY WAC EDY O'I HOL. O. H.

O 23 Mehefin 1989, dyma fydd ein cyfeiriad parhaol:

ORIEL
Heol Tŷ'r Brodyr
Caerdydd
CF1 4AA
Ffôn: (0222) 395548

CWRS CYMRAEG SAIN DUNWYD
CENEDL HEB IAITH CENEDL HEB GALON

Am fanylion pellach cysyllter a Cefin Campbell , Adran Efrydiau Allanol 38-39 Heol y Parc, Caerdydd.Hefyd trefnir taith Haf "Dilyn Afon Tywi"- Gwnewch ymholiadau.

DYFODOL TELEDU

Yn wyneb y datblygiadau sy'n prysur ddigwydd n y byd teledu nid drwg o beth yw ceisio dod i sylweddoli'r chwyldro gan rywun sydd ynghanol y cyfnewid.

"Cipolwg ar Ddyfodol Teledu" fydd pwnc darlith a drafodir gan Emyr Daniel sydd, erbyn hyn, yn Gyfarwyddwr Rhaglenni HTV. Mae ganddo brofiad helaeth o'r cyfrwng fel Cyflwynydd Cynhyrchydd a bellach fel Gweinyddwr.

Cynhelir y ddarlith yn Neuadd Ysgol Howell, Llandaf, nos Iau, Mehefin 22ain am 7.30 o'r gloch Trefnir y noson gan Gymdeithas Cynfyfyrwyr Coleg Aberystwyth. Mae'r ddarlith hon yn rhan o gyfres dan nawdd y Gymdeithas a'r gyntaf yn y Gymraeg.

Er mwyn cael mynediad rhaid wrth docyn a hynny ymlaen llaw. Pris y tocyn yw £3.00 sydd hefyd yn cynnwys lluniaeth ysgafn.

Geilir cael tocynnau drwy gysylltu â Dilys Wynne Lloyd, 182 Ffordd Caerdydd, Llandaf, Caerdydd. CF5 2AD - Ffôn 562154.

Llongyfarchiadau i Anna, merch Mr a Mrs R E Lindsay, Cyncoed, Caerdydd ar ei dyweddiad ag Angus Maclean o Sydenham, De Llundain. Y mae'r ddau yn yr un byd, y maill a'r llall yn feddyg. Dynunwn yn dda i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Nia a Dudley Newberry ar enedigaeth mab yn ddiweddar - brawd bach i Cadi. Mae'n debyg mai bwyta fydd prif ddiddordeb y bychan am dipyn ond gobeithio, rywbryd, y bydd yn penderfynu dilyn yn ol traed ei dad ac yn coginio bwydydd blasus i bobl eraill! Pob dymuniad da i'r teulu i gyd.

Hunangyflogedig?
Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

Aelod o FIMBRA

30, Highfields,
Llandaf,
Caerdydd, CF5 2QB

BUDDSODDIADAU
YSWIRIANT BYWYD
PENSIYNAU

Cymdeithas Canna

Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg i Oedolion

Canolfan yr Urdd
Heol Conwy
CAERDYDD

19 Mai 1989

Annwyl Olygydd

Fel y gŵyr llawer o ddarllenwyr y *Dinesydd*, bu traddodiad o ddysgu Cymraeg i Oedolion ers llawer o flynyddoedd yng Nghanolfan yr Urdd, Treganna - traddodiad llewyrchus iawn.

Cynhaliwyd dosbarthiadau ar gyfer dysgwyr o bob safon, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd dros gant o oedolion yn cofrestru ar gyfer y dosbarthiadau hyn bob mis Medi. Prawf o lwyddiant y dosbarthiadau yw bod nifer fawr o ddysgwyr wedi meistroli'r iaith yn ddigon effeithiol i gyfrannu i'r gymdeithas Gymraeg leol. Dychwelodd nifer ohonynt i'r Ganolfan yn diwtoriaid eu hunain.

Am amryw resymau, ni fydd nifer o diwtoriaid sefydlog y Ganolfan yn gallu dysgu o fis Medi ymlaen. O'r herwydd gwelir cyfle i ddenu tiwtoriaid newydd gan gynnig iddynt ystod eang o brofiadau dysgu a chymdeithasol. Rhagwelir y bydd modd cynnig hyfforddiant proffesiynol i ddarpar diwtoriaid dibrofiad.

Gwahoddwn unrhyw un â diddordeb mewn cynorthwyo yn y cyswllt hwn trwy ddysgu dosbarth yn y Ganolfan o fis Medi ymlaen i ddod i gyfarfod arbennig o Gymdeithas Canna, am 8.30, Mehefin 12fed yn y Ganolfan, Heol Conwy, neu gysylltu ag Ian Myhre (Caerdydd 487159) neu Joan Williams (Y Barri 736983).

Yr eiddoch yn gywir
Tiwtoriaid Cymdeithas Canna.

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.



Bydd DALIER SYLW yn cyflwyno eu cynhyrchiad cyntaf Adar Heb Adenydd gan Edward Thomas yn ystod misoedd Mai/Mehefin eleni, ac yn teithio i ganolfannau ledled Cymru.

Ffurfiwyd DALIER SYLW ym Medi 1988. Mae'n gwmni sy'n rhoi pwyslais arbennig ar yr angen i ddatblygu gwaith newydd gan ddramodwyr profiadol a di-brofiad yn yr iaith Gymraeg fel sylfaen i theatr y dyfodol, ac ar y BROSES o weithio gydag awduron.

Yn ystod y misoedd cyntaf, bu'r cwmni yn cynnal gweithdai gyda dau awdur - Edward Thomas a John Glyn Owen - i ddatblygu sgriptiau a syniadau newydd. Yn ystod y gweithdai, 'roedd cyfle i arbrofi gydag arddull, ffurf a deialog gyda chefnogaeth actorion a chyfarwyddwyr; cyfnod a oedd yn fuddiol nid yn unig i'r awduron a'r sgript, ond hefyd a roddodd gyfle i actorion (rhai nad oeddynt wedi cael cyfle i weithio yn y theatr Gymraeg ers talwm) i arbrofi fel perfformwyr.

Comisiynwyd ddau awdur i ysgrifennu drama newydd ar gyfer DALIER SYLW.

Y cast i Adar Heb Adenydd fydd Sharon Morgan, Catherine Tregannag, Richard Lynch, Wyndham Price, Gareth Morris a Russell Gomer.

Lleolir y ddrama ger gorsaf rheilffordd yn Ne Cymru, ble mae milwr, priodferch, bachgen a merch ifanc, a dyn tiwnio piano yn bodoli mewn byd o freuddwydion. Byd sy'n hagr a hardd, ble mae dychymyg ffantasiol yn cyd-redeg a realaeth creulon. Un peth sy'n clymu'r cymeriadau at ei gilydd - ceisio rhyddid mewn byd lle mae'r wladwriaeth yn rheoli ac yn llunio patrwm eu bywydau.

Stori yw am gariad, chwerthin a chelwydd, wedi ei chyflwyno mewn arddull bywiog a chyffrous.
Yn ystod y daith, mae gwahoddiad i awduron ymuno â DALIER SYLW ar gyfer gweithdai agored yng Nghaernarfon, Yr Wyddgrug a Chaerdydd. Ceir cyfle i drafod neu arbrofi gyda deialog ac arddull mewn awyrgylch cyfeillgar.

Bwrdd Rheoli DALIER SYLW yw Ann Beynon (cadeirydd), D G R Jones, Lisabeth Miles, John Owen ac Elinor Patchell, ac mae'r Bwrdd Artistig yn cynnwys Peter Edwards, Sion Eirian ac Eryl Phillips.

Perfformir y ddrama Adar Heb Adenydd yn Arena Theatr y Sherman ar Nos Iau, Nos Wener a Nos Sadwrn Mehefin 15 - 17. Os ydych am ragor o fanylion ynglyn â'r cwmni, y daith neu'r gweithdai, cysylltwch â Mai Jones, Uned 7, Gweithdai Douglas, Royal Stuart Lane, Caerdydd CF1 6EL. Ffôn (0222) 489080.

CYMDEITHAS DDRAMA'R CRWYS

JOHN OGWEN
A
MAUREEN RHYS

NOS WENER, MEHEFIN 23ain.
am 8 o'r gloch
Capel y Crwys
Heol Richmond, Caerdydd

COFIO
JOHN GWIL

TOCYNNAU £3 PLANT £2

Liz Shore 758878
Bob Roberts 627903
Aled Evans 494376

CYNHYRCHIAD CYNTAF

d.s.
dalier sylw

Adar heb Adenydd

THEATR SHERMAN
Nos Iau - Nos Sadwrn,
Mehefin 15fed - 17eg am 8yh

Tocynnau: (0222) 230451 - £4.90/£3.40

CYMORTHFA/GWEITHDY I AWDURON
Arena Theatr Sherman, 10am-1pm,Sadwrn 17 Mehefin

Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn — RHIF 91



I LAWR

1. Rhaid gwneud hyn yn wastad i osgoi peri tramgwydd. (4'1,5)
2. O'r tu faes y mae hwn. (6)
3. Eyddai yn dadebru o hunllef -- a difai yw wedi'r cyfan. (8)
4. Cartre rhyw Seimon neu'i gilydd. (6)
5. Cael bri o ddadl sy'n siarad dwli. (8)
6. Tipyn o lwynog, yn enwedig pan fo'n hen. (4)
9. Mewn trên awn trosto i weld digwyddiadau difyr. (6,7)
14. Y tuhwnt i ddirnadaeth. (10)
16. Ffydd y bobl neilltuedig? (8)
17. Tymestl o gibau, felly? (8)
19. Y mellt yn taro. (6)
21. Go brin yw'r tipyn. (6)
23. Tueddu i fod yn bleidiol. (4)

AR DRAWS

7. Llwch ffrwythlon. (4)
8. Pe'i dygodd at Mal wedi iddo ddod yn ddarnau rhydd. (10)
10. Mae'r Wy a lyncodd Gwenno yn gwneud niwed iddi. (8)
11. "Ac ni bydd ------ yn eu beudai." (Gweddi Habacuc -- Yr Hen Gyfieithiad) (6)
12. Byddai yn ddefosiynol. (6)
13. Mae bywoliaeth iddo ar y plwy. (8)
15. Y meddygon ysbrydol yn dod â'r cryddion i seiat gyffrous. (13)
18. Un o'i fysedd, mae'n amlwg. (8)
20. Mae mwy o harddwch i'w weld yma. (6)
22. Newid yr orgraff, a cholli H, wrth geisio bod yn berffaith heini. (6)
24. Llinellau amwys a hydwyth, y ceisiwn ni oll gadw o fewn iddynt. (8)
25. Gwahanol iawn i'r eliffant yn hyn o beth yw'r un hawdd ei ddigio. (10)
26. Mae angen naw i wneud chwarae teg addas a'r cymod. (4)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 90

Ar Draws: 7.HALOGI'R AMGYLCHEDD; 8.LLYMDOST; 10.FFENESTR; 11.IRAIDD 12.EPLES; 14.CWYMP; 15.GINI; 16.MAWR; 17.CAED; 19.TALP; 21.DYCHAN; 22.TARAN; 23.GWASG; 25.COEDIOG; 26.TWYMAIS: 27.PENTRE BACH LLANBER.

I Lawr: 1.CARYL PARRY JONES; 2.LLOND CEG; 3.SIPSI;4.AGWEDD; 5.BLAENWR; 6.SENTIMENTALIAETH; 9.TROI; 13.SIDAN: 14.CWILT; 10.FFILM; 17.CARDOTA; 18.DRWG; 19.TYST; 20.PALMANT; 23. GODDEF; 24.GWYLLT.

CYSTADLEUAETH RHIF 90

Derbyniwyd deuddeg ymgais. Roedd un gwall yn un ohonynt ond roedd y gweddill i gyd yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd oedd eiddo Robin D.N.Bateman o 96,Pendwyallt, Yr Eglwysnewydd, a bydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddo cyn bo hir. Daeth yr atebion cywir eraill oddi-wrth:- Hefin Tomos, Y Rhath; Huw.O. Williams, Llundain; B.T. Cyncoed; A.R.R. Abertawe; G.Jeffreys, Parc y Rhath; Rhian James, Llanishen; Huana Simpson, Y Bontfaen; Tegwen Hughes, Llamisien; Marged Davies, Llandaf; ac S.Evans, Cathays.

CYSTADLEUAETH RHIF 91

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13,Hannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mehefin 20fed. Tocyn llyfr £5 i'r un cywir a ffodus

---

ADDYSG FEITHRIN YN Y RHATH

Odych chi'n byw yn ardal y Rhâth, Penylan, Parc y Rhâth a'r cyffinie ac yn fam (neu'n dad) i blant bach? Wyddech chi fod yna Gylch Mam a'i Phlentyn yn cwrdd yn rheolaidd yn Neuadd Gymuned y Rhâth bob prynhawn Mercher rhwng 2 a 3.30? Mae 'na groeso cynnes iawn i aelodau newydd i ymuno â ni am baned a sgwrs yng nghanol y sŵn i gyd!

Iestun ein sgwrsio yn y Cylch ers misoedd yw'r angen a'r galw mawr am Ysgol Feithrin yn ryr ardal hon o ddwyrain Caerdydd - mae na nifer o Gymry yn byw yma, a 'nunlle llecl i ddanfon ein plant. Felly, gyda chryn frwdfrydedd ry'n ni wedi bod wrthi yn ceisio dod o hyd i fan addas i gael ysgol - a gobeithio y llwyddwn i gael rhywle erbyn mis Medi. Mae 'na gnewyllyn o blant yn barod i ddechrau.

Mi fydd 'na gyfarfod i holl famau'r Cylch, ac i unrhyw un arall sydd a diddordeb yng ngweithgarwch y Cylch, ar nos Iau, Mehefin 8 am 8.00pm un 30 Kimberley Road, Penylan. Mi fyddwn yn gosod trefn ar y Cylch am y misoedd i ddod, trafod datblygiadau'r Ysgol Feithrin ac yn trefnu'r Ffair Sborion sydd i'w chynnal ar Orffennaf 8 yn Ysgol Gynradd Albany Road i godi arian ar gyfer y cylch. Os na allwch ddo ar yr 8, dowch ar bnawn Mercher i ymuno â ni, neu am unrhyw wybodaeth bellach, ffoniwch Cathryn Gwynn ar 484271.

Y BABI!

Ar Ebrill 20 i Cathryn Gwynn a Peter Jones, ganwyd mab bach - fis yn gynnar! MEILYR GWYNN - brawd i Owain.

LLongyfarchiadau i Huw Wyn Williams ac Alison Rees, y ddau yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun LLanharri, ar ei dyweddiad. Bydd y ciychau'n canu flwyddyn i rwan. Ein dymuniadau da i'r ddau.